Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanuwchllyn

**Y Neuadd Bentref**
**Llanuwchllyn**
**LL23 7TT**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Llanuwchllyn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llanuwchllyn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Siân Gwent |
| Person â gofal | Sioned Roberts |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2.5 oed i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 12:30yp i 3:00yp o ddydd Llun i ddydd Iau |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad ers ailgofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Gorffennaf 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 06/03/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Darparu gwell cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau yn yr ardal allanol

A2 Sicrhau profiadau dilys i blant ar draws y meysydd dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan yr holl blant lais cryf ac maent yn lleisio eu barn yn gyson. Er enghraifft, maent yn symud o amgylch yr ystafell yn hyderus, o un weithgaredd i'r llall, ac yn helpu eu hunain i adnoddau mewn bocsys a droriau yn fwriadus. Mae'r plant yn gwybod y caiff eu teimladau eu hystyried yn ofalus gan oedolion. Er enghraifft, pan maent yn teimlo'n drist, maent yn cael eu cysuro'n garedig gan ymarferwyr.

Mae bron bob un o'r plant yn teimlo'n gwbl gartrefol yn y lleoliad ac yn mwynhau mynychu'r sesiynau diddorol. Erbyn iddynt gyrraedd y brif ystafell, mae bron bob un yn hapus ac yn mynd ati i chwarae'n syth. O ganlyniad, maent yn ymgartrefu'n gyflym iawn ac yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Mae ganddynt berthynas agos iawn â'r ymarferwyr ac maent yn barod i sgwrsio'n anffurfiol ag ymwelwyr am eu hymdrechion a'u chwarae. Mae bron bob un yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n aeddfed ag arferion y lleoliad. Mae hyn yn creu sicrwydd i'r plant wrth iddynt ymdopi a chyfarwyddo â phrofiadau newydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus. Maent yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda, gan ddangos parch tuag at ymarferwyr a'u cyfoedion. Er enghraifft, maent yn aros eu tro yn amyneddgar wrth y bwrdd byrbryd ac yn ymateb yn gwrtais wrth dderbyn eu cwpanau a'u diod.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae ac yn datblygu medrau effeithiol wrth arbrofi a dysgu. Er enghraifft, maent yn cael llawer o hwyl wrth chwarae gyda thywod a cherrig mân yn yr ardal adeiladu, ac maent yn llwytho'r nwyddau adeiladu i fwcedi a lorïau yn ddiwyd. O ganlyniad, mae llawer o blant yn ymateb yn llawn cyffro wrth chwarae yn yr ardal allanol. Maent yn defnyddio'r offer ac yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol wrth neidio yn y tybiau dŵr, cicio peli a gyrru beiciau'n frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol yn arbennig o dda. Er enghraifft, maent yn gwisgo a thynnu eu cotiau yn ddiffwdan. Mae helpwr y dydd yn paratoi ffrwythau ac yn arllwys diod yn hyderus i'w cyfoedion. Maent yn gwneud dewisiadau da yn ôl eu diddordebau ac yn ystod y sesiwn, maent yn penderfynu sut i dreulio eu hamser yn ddeallus. Maent yn dewis tasgau yn yr ardal allanol yn synhwyrol, yn ogystal â dewis o'r amrywiol weithgareddau tu mewn i'r adeilad. O ganlyniad, maent yn dyfalbarhau'n gydwybodol â'u gweithgareddau ac yn ymgolli yn eu chwarae am gyfnodau hir.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch ac iechyd y plant yn effeithiol. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn cadw at weithdrefnau dyddiol y lleoliad yn gydwybodol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau gweithdrefnau hylendid da. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo yn rheolaidd ac yn diheintio arwynebau yn ofalus cyn amser byrbryd.

Mae ymarferwr yn dilyn gweithdrefnau da ar gyfer cofnodi damweiniau ac anafiadau. Mae'r holl ymarferwyr yn deall disgwyliadau'r polisi yn drwyadl ac yn hyderus ar sut i weithredu pe bai ganddynt unrhyw bryder am ddiogelwch plentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn datblygu perthynas gynnes â'r plant ac yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig iawn ac yn atgoffa plant i rannu teganau ac i barchu ei gilydd. Maent yn annog y plant i ddatrys unrhyw wrthdaro trwy drafodaethau synhwyrol gyda'i gilydd, heb ormod o ymyrraeth oedolion.

Un o gryfderau'r lleoliad yw'r modd y mae'r holl ymarferwyr yn defnyddio iaith gadarnhaol gyda'r plant yn gyson, gan hyrwyddo ymddygiad da a chefnogi'r plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn fedrus wrth benderfynu pa bryd i gamu'n ôl ac arsylwi'n graff ar y chwarae, a pha bryd i ymyrryd yn ddeallus a holi'r plant gyda chwestiynau pen agored.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn gariadus i blentyn sy'n teimlo'n ansicr wrth gyrraedd. Maent yn cysuro'r plentyn ac yn annog y plant i fod yn garedig gyda'u ffrindiau. O ganlyniad, maent yn ystyried teimladau pawb yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn datblygu cyfleoedd bwriadus i ymateb i ddiddordebau'r plant. Maent yn cynnig anogaeth i blant sy'n gofyn am help, ac yn eu cefnogi i roi cynnig ar heriau penodol fel chwarae dominos.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo parch a goddefgarwch yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn addysgu'r plant yn dda am arferion a dathliadau gwahanol ddiwylliannau. Yn ogystal, maent yn datblygu eu dealltwriaeth o ddathliadau a threftadaeth Cymru yn dda trwy astudio hanes Santes Dwynwen ac arferion Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn darparu cwricwlwm diddorol, eang a chytbwys, sydd wedi ei seilio ar barodrwydd i ddilyn trywyddau'r plant yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cerdded i orsaf drên y pentref ac ymweld ag amgueddfa'r rheilffordd. Maent yn cyd-gynllunio'n dda i herio dysgu'r plant trwy nifer o weithgareddau ymarferol, fel adeiladu rampiau i rasio cerbydau o un pen y neuadd i'r llall. Yn ogystal, maent yn defnyddio trafodaethau pwrpasol gyda'r plant, a'u plethu gyda'u hasesiadau dyddiol yn ddoeth, i gynllunio camau nesaf bwriadus yn nysgu plant unigol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd difyr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant, yn enwedig tu mewn i'r adeilad. Maent yn ymdrechu'n gyson i ymestyn dealltwriaeth y plant trwy holi unigolion yn synhwyrol wrth iddynt chwarae a

chydweithio â chyfoedion. Gwneir hyn wrth i’r plant greu marciau gyda phaent ar îsl tryloyw ac wrth iddynt ddidoli a rhifo anifeiliaid y fferm yn yr ardal byd bach. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu medrau digidol cynnar y plant. Maent yn annog y plant yn dda i ddefnyddio llechi electronig, i raglennu cerbydau i deithio ar drac a chymryd negeseuon ar ffôn symudol. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn herio plant yn ddigonol i ddatblygu eu holl medrau yn gwbl effeithiol yn yr ardal allanol.

Mae dulliau addysgu hyderus yr ymarferwyr yn annog y plant i ddyfalbarhau’n fwriadus â’u tasgau, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Maent yn sbarduno’r plant i fentro’n annibynnol wrth ddatrys problemau, ac o ganlyniad, mae’r plant yn datblygu eu medrau gwybyddol yn dda. Er enghraifft, maent yn ysgogi’r plant i lifo dŵr trwy silindrau a chafnau, yn gyflym neu’n araf, gan geisio osgoi unrhyw wastraff.

Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn gelfydd yn ystod gweithgareddau. Maent yn cymell y plant yn feddylgar i arbrofi wrth chwarae ac i fanteisio ar drafodaethau effeithiol ar sut i ddatblygu eu syniadau. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu’n ddysgwyr hyderus. Maent yn barod i fentro a thrafod eu llwyddiannau, a myfyrio wrth wynebu heriau. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn herio’r plant i godi cerrig mân gyda gefeiliau a’u llwytho i wydrau a pharatoi prydau bwyd dychmygus gyda mwsogl, dail a moch coed yn y gegin allanol.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus, fel annog y plant i yrru beiciau ar y buarth yn frwdfrydig ac ymarfer ioga. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol, fel cymell y plant i greu rhythmau gyda thambwrîn a chlychau a chaniatáu i blant brintio’n annibynnol gyda thatws a sgwrwyr. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn herio’r plant i godi tyrrau i uchderau gwahanol gyda blychau cardfwrdd, sydd wedi eu hailgylchu.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru’n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a chystadlu mewn eisteddfodau lleol. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth yn llwyddiannus trwy ddysgu am arferion y Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd a gwisgo fel trigolion Nepal, wrth iddynt astudio arferion y wlad honno.

Mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant. Gwneir hyn trwy gyfryngau cymdeithasol a thrafodaethau i drafod cynnydd tros gyfnod. Mae’r llyfryn cynnydd, sy’n cael ei rannu â rhieni a gofalwyr, yn adlewyrchu datblygiad y plentyn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ar gyfer y plant. Mae mynediad i’r adeilad trwy ddrws diogel ac mae ymarferwyr yn sicrhau bod y giât allanol ar gau pan mae’r gwasanaeth ar agor. Gofynnir i ymarferwyr ac ymwelwyr fewngofnodi’n brydlon a chedwir cofnodion manwl. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cofnodion cynnal a chadw’r adeilad yn gyfredol. Mae ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân pwrpasol yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion manwl.

Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn gwirio a glanhau adnoddau'n rheolaidd. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn adnabod risgiau'n effeithiol ac yn llunio asesiadau risg trylwyr ar gyfer yr holl ardaloedd dysgu a gweithgareddau'r plant.

Mae ansawdd yr amgylchedd yn cynnig cyfleoedd da i blant chwarae a dysgu tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae toiledau addas ar gael sy'n parchu preifatrwydd y plant. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio amserlen benodol i'r plant gael mynediad di-rwystr i'r ardal allanol am gyfnodau hir, sy'n cyfoethogi dysgu a lles y plant yn dda.

Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac o safon dda, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n ofalus. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn defnyddio'r adnoddau bywyd go iawn yn ddigon effeithiol bob amser i ddarparu profiadau dilys ar gyfer y plant. Mae'r ymarferwyr yn cadw adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd ag estyn a dychwelyd offer i'w mannau priodol.

Mae'r ardal allanol yn galluogi plant i ddatblygu'n dda yn gorfforol, yn greadigol ac yn ymchwiliol. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau wrth y gegin allanol ac maent yn paratoi prydau dychmygol gyda'i gilydd. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau datblygiad personol a chymdeithasol da ymysg y plant a chânt fynediad at deganau a llyfrau aml-ddiwylliannol yn rheolaidd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r unigolyn cyfrifol yn gweithio'n ddiwyd gyda'r arweinydd a'r ymarferwyr brwdfrydig i ddarparu profiadau diddorol er lles y plant. Mae gweledigaeth bwrpasol yr arweinwyr yn sicrhau darpariaeth fuddiol, sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella deilliannau'r plant. Gwneir hyn trwy gynnig amrediad cyfoethog o weithgareddau difyr ac ymestynnol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol er mwyn gwerthuso a gwella'r ddarpariaeth yn y lleoliad. Maent yn canolbwyntio ar agweddau allweddol fel addysgu a chynllunio effeithiol. Yn ogystal, maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel a chadarn sy'n anwytho ymarferwyr newydd yn llwyddiannus. Maent hefyd yn canolbwyntio ar gynnig cymorth bugeiliol gofalus i'r holl ymarferwyr. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn deyrngar ac yn cymell y plant i wneud eu gorau glas trwy gydol y sesiynau ac mae eu hysgogaeth yn gefnogol iawn.

Mae'r gweithdrefnau hunanwerthuso a'r cynllunio i greu gwelliannau yn effeithiol. Maent yn llwyddo i wella arferion y lleoliad ac yn canolbwyntio'n fwriadus ar dargedu'r anghenion cyfredol, fel datblygu'r ardal allanol ymhellach. Mae arweinwyr yn defnyddio trefniadau cyson i fonitro arferion y lleoliad yn drwyadl. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cydweithio â'r arweinydd i ddilysu penderfyniadau'n effeithiol ac i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella. Mae'r gweithdrefnau hyn yn sicrhau targedau dibynadwy yn y cynllun datblygu, fel gwella'r ddarpariaeth ynglŷn â dealltwriaeth aml-ddiwylliannol y plant. Yn ogystal, mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn dîm cytûn, sy'n cydweithio'n gydwybodol ac yn dangos parodrwydd synhwyrol i ddilyn awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n rhan o fywyd y lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau effeithiol gyda'r holl randdeiliaid, fel y rhieni a

swyddogion yr awdurdod lleol, i wella’r ddarpariaeth a phrofiadau’r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando’n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu’r arferion cynllunio ac asesu er mwyn dilyn diddordebau’r plant yn well. Yn ogystal, maent yn gweithredu ar awgrymiadau’r rhieni a’r gofalwyr yn synhwyrol, fel cynnal cyfarfodydd â’r rhieni i drafod cynnydd eu plant.

Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau’n dda. Maent yn sicrhau digon o ymarferwyr cymwys ac yn trefnu hyfforddiant perthnasol i fodloni anghenion yr ymarferwyr yn effeithiol. Mae’r defnydd o’r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn dda. O ganlyniad, mae agweddau cadarnhaol yr arweinwyr yn sicrhau darpariaeth gyflawn ar gyfer y plant. Gwneir hyn trwy gyllido cyfarpar defnyddiol, fel adnoddau digidol, wal ddŵr ac ardaloedd adeiladu a phlannu.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau buddiol ac mae’r cysylltiadau hyn yn cefnogi’r lleoliad trwy gynnig profiadau difyr i’r plant  ddysgu am eu cynefin. Er enghraifft, mae ffermwyr lleol yn ymweld â’r lleoliad er mwyn i’r plant ddysgu am sut i ofalu am ŵyn bach a geifr. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn cydweithio’n dda â’r ysgol gyfagos er mwyn hyrwyddo’r broses o drosglwyddo i’r cam nesaf yn eu haddysg.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/05/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 11 Mai 2023